TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith

19 Mai 2025

Annwyl Llyr Gruffydd AS

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith i graffu ar Fil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), dw i'n ysgrifennu atoch er mwyn amlinellu ein gweledigaeth ar y cyd, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, ar gyfer system fysiau newydd sy'n chwarae rhan allweddol wrth greu rhwydwaith trafnidiaeth gwirioneddol integredig i bobl Cymru.

Credwn fod Cymru'n haeddu rhwydwaith bysiau sy'n ddibynadwy, yn fforddiadwy, yn hyblyg ac yn hawdd ei ddefnyddio, yn ogystal ag un sy'n cyfrannu at gyflawni targedau cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru. Dw i am ddefnyddio'r cyfle hwn i ddangos tystiolaeth o'n dull gweithredu arfaethedig i fasnachfreinio'r bysiau, y gwaith yr ydym eisoes wedi dechrau ei baratoi ar gyfer ei gyflwyno ledled Cymru a'r perthnasoedd allweddol yr ydym yn eu datblygu o fewn y diwydiant er mwyn llunio'r llwybr i ddiwygio'r bysiau.

**Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn**

Ym mis Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Papur Gwyn 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn' sy'n nodi cynigion i drawsnewid gwasanaethau bws yng Nghymru. Yn y ddogfen hon, nodwyd bod 96.1% o'r ymatebwyr yn cytuno bod newid yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaethau bws sy'n diwallu anghenion pobl yng Nghymru ac er mwyn ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi targedau cynaliadwyedd uchelgeisiol ac os yw Cymru am gyrraedd y rhain, rhaid i ni helpu pobl i wneud penderfyniadau trafnidiaeth cynaliadwy drwy sicrhau bod bysiau'n ddull teithio hygyrch a deniadol.

Ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, rydym yn adeiladu rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n dwyn ynghyd cerdded, olwynio, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus i wneud trafnidiaeth gynaliadwy y ffordd hawsaf o deithio. Mae bysiau'n rhan allweddol o'r weledigaeth hon ac mae gennym dri amcan ar gyfer y system fysiau newydd sy'n cefnogi ein huchelgeisiau o ran annog newid mewn dulliau teithio:

- Rhwydwaith bysiau sydd wedi'i gysylltu â gweddill trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru ac sy'n hawdd ei lywio (Un Rhwydwaith).
- Amserlenni cydlynol sy'n hawdd eu defnyddio ac sy'n caniatáu i deithwyr gysylltu rhwng gwahanol ddulliau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru (Un Amserlen).
- Tocynnau symlach sy'n galluogi teithiau ar draws dulliau trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru gyda phrisiau fforddiadwy a chyson (Un Tocyn).

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae tua 190,000 o deithiau yng Nghymru yn cael eu gwneud ar fws bob dydd a thri chwarter o gyfanswm y teithiau a wneir ar drafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu gwneud ar fws. Mae hyn yn ei wneud yn wasanaeth hanfodol i'r 19.4% o gartrefi yng Nghymru sydd heb gar. Fodd bynnag, nid ydym yn credu bod rhwydwaith bysiau presennol Cymru yn cyflawni ei botensial, gyda llawer o rwystrau yn atal pobl rhag teithio ar y bws yn gyfan gwbl. Er enghraifft, ystyrir bod y rhwydwaith presennol yn annibynadwy; ni dderbynnir tocynnau ar draws sawl gweithredwr; mae'n anodd dod o hyd i wybodaeth am deithiau ac i ymddiried ynddi; ac mae diffyg integreiddio gwasanaethau bws â dulliau trafnidiaeth eraill. Mae rhwystrau llai gweladwy eraill hefyd yn bodoli, megis pryderon ynghylch diogelwch personol wrth ddefnyddio'r rhwydwaith bysiau.

Caiff gwendidau'r rhwydwaith bysiau presennol eu gyrru gan broblemau systemig ehangach gan gynnwys dadreoleiddio, penderfyniadau cynllunio a wnaed yn y gorffennol sydd wedi gadael cymunedau heb gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, yn ogystal â'r ffaith bod pandemig Covid wedi newid y ffordd y mae pobl yn teithio. Fodd bynnag, credwn y bydd ein dull o 'Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn' yn cefnogi'r gwaith o chwalu'r rhwystrau hyn yn fawr ac yn trawsnewid gwasanaethau bws yng Nghymru.

**Ein dull gweithredu**

Mae ein dull o ailgynllunio gwasanaethau bysiau yn un sy'n edrych ar y darlun yn ei gyfanrwydd, sy'n golygu ein bod yn ystyried popeth sy'n effeithio ar brofiad y cwsmer wrth deithio ar fws. O ymddangosiad bysiau a'r amserlenni rydyn ni'n eu cynhyrchu, i'r trefniadau sydd gennym ni gyda gweithredwyr y tu ôl i'r llenni.

Mae Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru wedi cytuno y byddwn yn cyflwyno cynllun masnachfreinio ar draws pedwar parth sy'n gorgyffwrdd ag ôl troed y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CJC). Yn 2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru yr amserlen ganlynol ar gyfer cyflwyno'r cynllun:

- De Orllewin Cymru 2027
- Gogledd Cymru 2028
- De Ddwyrain Cymru 2029
- Canolbarth Cymru 2030

Mae'r ystyriaethau allweddol a wnaed wrth gytuno ar drefn cyflwyno masnachfreinio fesul ardal yn cynnwys cymhlethdod y rhwydwaith, megis symudiadau traws gwlad a thrawsffiniol; lefelau presennol o ran rheolaeth a chystadleuaeth o fewn y parthau hynny; y gallu i gynyddu refeniw yn yr ardal; a'r cyfleoedd datgarboneiddio bysiau sydd ar gael. Roedd ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Chyd-bwyllgorau Corfforedig, yn rhan annatod o'r ystyriaethau hyn ac wedi bod yn sail bwysig i'n penderfyniadau ar gyfer yr amserlen hon.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Fel rhan o'n partneriaeth barhaus â Chyd-bwyllgorau Corfforedig ac Awdurdodau Lleol, rydym wedi cytuno ar y cyd ar fethodoleg ar gyfer sut y byddwn yn cydweithio i baratoi ar gyfer Diwygio’r Bysiau. Mae'r ffordd hon o weithio yn darparu cyfleoedd i Awdurdodau Lleol a Trafnidiaeth Cymru wella profiad teithwyr ac annog newid ymddygiad ar lefelau rhanbarthol a lleol. Mae'r fethodoleg hefyd wedi'i chymeradwyo gan CLILC ac aelodau’r cabinet trafnidiaeth o bob un o'r 22 Awdurdod Lleol. Mae'r gymeradwyaeth hon gan randdeiliaid wedi bod yn agwedd ganolog ar lunio'r fethodoleg.

Rydym wedi ymrwymo i hwyluso datblygiad y rhwydwaith bysiau ar y cyd ag Awdurdodau Lleol, Cyd-bwyllgorau Corfforedig a phartneriaid allweddol eraill, fel y nodwyd yn ‘Ein Map Ffordd i Ddiwygio’r Bysiau’ a gafodd ei ailgyhoeddi (Mawrth 2025). Mae hyn yn sicrhau bod y rhwydwaith yn y dyfodol wedi’i gysylltu’n strategol ledled Cymru ac wedi’i integreiddio â dulliau teithio eraill drwy flaenoriaethu’r defnydd o’u gwybodaeth leol a rhanbarthol. Rydym eisoes wedi dechrau ein gwaith gydag Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynigion rhwydwaith bysiau ac rydym yn darparu ein harbenigedd, ein data a’n dealltwriaeth er mwyn cynllunio rhwydwaith i gefnogi’r broses.

Gan ddefnyddio dull a arweinir gan ddata, rydym am ddeall y tair agwedd allweddol ar y rhwydwaith:

- Mynediad: Pa mor gyfleus yw'r rhwydwaith?
- Cyfle: Pa mor dda y mae'n cysylltu pobl â lle maen nhw eisiau mynd?
- Cysylltedd: Pa mor dda y mae'n cysylltu pobl â gwasanaethau trafnidiaeth eraill?

Bydd hyn yn caniatáu i ni fesur llwyddiant y rhwydwaith o ran gwella mynediad (bod 400m o safle bws, gorsaf reilffordd neu gyfnewidfa gyda gwasanaethau bob awr neu'n amlach); mynediad at gyfleoedd (ble a beth allwch chi ei gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus o fewn amser penodol o'ch cartref); a mesur cysylltedd (integreiddio amlfoddol). Rydym eisoes wedi dechrau gweithredu'r fethodoleg hon yn y De-orllewin, gan mai dyma'r parth cyntaf yr ydym yn bwriadu masnachfreinio ynddo, ac rydym hefyd wedi darparu cefnogaeth ym Mhowys wrth iddynt ddatblygu’r rhwydwaith fel rhan o'r fenter 'Pontio i Fasnachfreinio' yng Nghanolbarth Cymru.

Yn ogystal â hyn, rydym yn seilio ein dull ar egwyddorion cynllunio rhwydwaith allweddol, sydd â'r bwriad o weithredu fel canllaw sylfaenol ac i lunio dyluniad y rhwydwaith. Wrth i ni barhau ar y daith i fasnachfreinio bysiau, caiff yr egwyddorion hyn eu hategu â mewnbwn ehangach gan bartneriaid allweddol, sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd a mewnwelediadau data er mwyn datblygu rhwydwaith bysiau lleol y dyfodol. Dyma'r egwyddorion:

- Cynllunio fel un rhwydwaith unedig: Mae gwasanaethau bws wedi'u cynllunio a'u trefnu i gynnig rhwydwaith trafnidiaeth unedig sy'n reddfol, yn hawdd ei ddeall ac wedi'i gydlynu, yn seiliedig ar amserlenni realistig sy'n darparu dibynadwyedd.
- Sefydlu rhwydwaith craidd sy'n cysylltu cyrchfannau allweddol: dylai'r rhwydwaith craidd ffurfio asgwrn cefn rhwydwaith lleol neu ranbarthol integredig.
- Datblygu rhwydweithiau porthi eilaidd a lleol o amgylch y craidd: wedi'u ffurfio o amgylch ac i gefnogi'r rhwydwaith craidd, gyda gwasanaethau llai aml a/neu wasanaethau sy’n ymateb i'r galw.
- Darparu uniongyrchedd gwasanaethau ar gyfer y rhwydwaith craidd: wedi'u trefnu fel llwybrau llinell syth gyda'r nifer lleiaf posibl o ddargyfeiriadau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

- Darparu llwybro cyson: dylai gwasanaethau weithredu ar hyd yr un llwybrau drwy'r dydd lle bynnag y bo modd er mwyn gwella dealltwriaeth o'r rhwydwaith a lleihau cymhlethdod gweithredol.
- Darparu gwasanaethau cydlynol ar goridorau cyffredin: amserlenni ar goridorau cyffredin wedi'u rhesymoli i ddarparu amseroedd rheolaidd, osgoi dyblygu a symleiddio'r rhwydwaith.
- Darparu gwasanaethau sydd wedi'u hintegreiddio a'u cydlynu: dylid cydlynu gwasanaethau â gwasanaethau bws eraill a gwasanaethau trên er mwyn creu rhwydwaith trafnidiaeth integredig sy'n manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd cysylltu a'r amrywiaeth o gyrchfannau sydd ar gael.
- Darparu amseroedd gadael cyson: dylai gwasanaethau adael ar amseroedd cyson heibio'r awr, bob awr, er mwyn helpu teithwyr i ddeall y drefn a theimlo'n hyderus lle bynnag y bo modd ac mewn ffordd sy'n gyson ag amcanion eraill.
- Darparu oriau gweithredu cyson: er mwyn cefnogi rhwydwaith trafnidiaeth integredig a chyfleoedd teithio ehangach, mae angen i amserlenni fod yn gyflenwol o ran darpariaeth drwy gydol y dydd.

**Ymgysylltu**

Fel rydw i eisoes wedi crybwyll yn fyr, rydym wedi ymrwymo i gynnal deialog agored a gonest ynghylch darpariaeth bysiau drwy ymgysylltu â phobl ledled Cymru a'r gororau. Mae deall blaenoriaethau ein rhanddeiliaid a'n cymunedau yn allweddol er mwyn i ni adeiladu'r rhwydwaith bysiau sydd ei angen ar Gymru. Ffordd bwysig yr ydym yn cynnal hyn yw drwy ein pensaernïaeth gynghori teithio amlfoddol sy'n dwyn ynghyd cynrychiolwyr o grwpiau cwsmeriaid, y llywodraeth, y diwydiant a phobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Maent yn darparu adborth, craffu a chyngor. Fel rhan o'r bensaernïaeth gynghori hon, rydym wedi sefydlu fframwaith cynhwysfawr ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol ynghylch masnachfreinio'r bysiau sydd wedi arwain at gyd-greu Fforwm Diwydiant Bysiau pwrpasol.

Mae ein fframwaith ar gyfer diwygio'r bysiau a'n pensaernïaeth gynghori ar drafnidiaeth amlfoddol yn ein helpu i:

- Ffurfio partneriaethau â rhanddeiliaid, gan elwa o'u gwybodaeth a'u mewnwelediad lleol.
- Deall anghenion y cyhoedd er mwyn darparu rhwydwaith bysiau sy'n canolbwyntio ar deithwyr.
- Cyrraedd y rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd ac ysgogi newid mewn dulliau teithio.
- Sicrhau bod pob partner yn glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau.
- Dod â phartneriaid ynghyd i osod cyfeiriad strategol ar y cyd ar gyfer dyfodol gwasanaethau bws yng Nghymru.

Dw i'n falch o ddweud bod proses ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol eisoes yn mynd rhagddi yn Ne-orllewin Cymru ac rydym wedi cynnal gweithgareddau gan gynnwys sesiynau ar fasnachfreinio ar gyfer cynrychiolwyr etholedig. Mae cydweithwyr yn TrC hefyd wedi mynychu cyfarfodydd cabinet ffurfiol ac anffurfiol i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Wrth baratoi i gyflwyno Cynllun y Rhwydwaith gerbron y Senedd yn 2026, byddwn yn lansio rhaglen o weithgareddau ymgysylltu cyhoeddus ar-lein ac wyneb yn wyneb yn ystod Haf 2025 i randdeiliaid, cwsmeriaid a gweithredwyr bysiau gael dweud eu dweud ar sut y dylai'r rhwydwaith bysiau edrych. Bydd yr ymgysylltu hwn yn parhau wrth i ni symud yn agosach at y garreg filltir gyntaf o ran cyflwyno, wrth i ni fireinio ein dull o fasnachfreinio ac adeiladu'r rhwydwaith gorau posibl i deithwyr gan ddefnyddio'r mewnwelediadau allweddol hyn.

**Ymgysylltu gydag Awdurdodau Lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig**

Yn ogystal â blaenoriaethu ymgysylltu â'r cyhoedd, mae ein gwaith gydag Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan ganolog wrth lunio'r ffordd y caiff bysiau eu diwygio. Mae Awdurdodau Lleol yn chwarae rhan annatod yn ein fframwaith ymgysylltu ynghylch diwygio'r bysiau ac rydym yn cynnal cyfarfodydd ddwywaith y mis, ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru, gyda Swyddogion a Rheolwyr Trafnidiaeth o bob un o'r 22 Awdurdod Lleol ledled Cymru. Mae'r cyfarfodydd hyn, sydd wedi bod yn digwydd ers bron i ddwy flynedd, yn canolbwyntio ar gytuno ar bynciau a chynlluniau ymgysylltu ymlaen llaw; darparu sesiynau rhyngweithiol dan arweiniad arweinwyr llif gwaith i fanteisio ar brofiad Awdurdodau Lleol; creu cyfleoedd ar gyfer sesiynau holi ac ateb er mwyn datblygu dogfennau Cwestiynau Cyffredin i'w rhannu'n ehangach; a datblygu cynlluniau ymgysylltu gyda chabinetau, aelodau etholedig lleol a chydweithwyr ehangach o fewn yr Awdurdod Lleol. Gan mai De-orllewin Cymru yw'r parth cyntaf i gael ei fasnachfreinio, rydym wedi bod yn gweithio'n agos iawn gydag Awdurdodau Lleol yn y rhanbarth hwn yn benodol.

Fel y soniwyd yn flaenorol, rydym hefyd wedi ymgysylltu â phob un o'r pedwar Cyd-bwyllgor Corfforedig i drafod Diwygio'r Bysiau, y Fethodoleg o gyflwyno'r cynllun Fesul Parth, egwyddorion craidd, y fframwaith ymgysylltu, ymgysylltu rhanbarthol a chyhoeddus yn Ne-orllewin Cymru, trafnidiaeth ysgol a chyllid. Mae'r Fethodoleg o gyflwyno'r cynllun Fesul Parth yn ffurfioli'r broses ymgysylltu hon ac yn darparu fframwaith sy'n cefnogi cydweithio ag Awdurdodau Lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig, gan helpu i ddiffinio cynllun cyflawni fesul parth.

Un o brif allbynnau ein hymgysylltiad ag Awdurdodau Lleol yn y De-orllewin hyd yn hyn yw cynhyrchu 'rhwydwaith sylfaen'. Mae'r 'rhwydwaith sylfaen' hwn, a grëwyd ar y cyd, yn defnyddio egwyddorion dylunio'r rhwydwaith ar gyfer y rhwydwaith presennol er mwyn gwella'r cynnig i gwsmeriaid, tra'n sicrhau hefyd y gellir ei gyflawni o fewn y cyllid a'r adnoddau presennol sydd ar gael yn y system heddiw. Yn dilyn y gweithgareddau ymgysylltu â gweithredwyr bysiau a'r cyhoedd a gynhaliwyd yr haf hwn, byddwn yn ailgyflwyno'r 'rhwydwaith sylfaen' i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer y rhanbarth a phob un o'r pedwar Cabinet Awdurdod Lleol unigol. Mae ein dull yn sicrhau nad yw ein cynigion rhwydwaith yn statig, a thrwy gynnal deialogau agored ag Awdurdodau Lleol ar effeithiolrwydd y 'rhwydwaith sylfaen' hwn, gallwn adolygu perfformiad y rhwydwaith a datblygu ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer newidiadau a gwelliannau arfaethedig dros amser. Bwriedir adlewyrchu'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran dylunio'r rhwydwaith yn Ne-orllewin Cymru ac ar Bontio i Fasnachfreinio yng Nghanolbarth Cymru yng nghynllun rhwydwaith Cymru Gyfan pan gaiff ei gyflwyno yn y Senedd yn dilyn Cydsyniad Brenhinol yn 2026.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Er mwyn i ni gynnal y safon hon o ymgysylltu, mae'r Fethodoleg o gyflwyno’r cynllun Fesul Parth yn ein hymrwymo i'n partneriaeth ag Awdurdodau Lleol, yn cyfundrefnu’r gofynion i aelodau etholedig lleol gymeradwyo’r ddarpariaeth o ran y rhwydwaith a gwasanaethau, ac yn caniatáu i bob Awdurdod Lleol/rhanbarth addasu'r dull i'w gofynion penodol. Mae Awdurdodau Lleol ledled Cymru a’r Gymdeithas Swyddogion Cydgysylltu Trafnidiaeth Cymru (ATCO) wedi cael y cyfle i roi adborth a datblygu'r dull ar y cyd. Rydym yn ystyried y gwaith partneriaeth hwn yn elfen hanfodol o greu rhwydwaith bysiau sy'n adlewyrchu anghenion cymunedau lleol yng Nghymru a byddwn yn parhau i flaenoriaethu'r perthnasoedd hyn yn y parthau eraill wrth i ni symud ymlaen trwy'r amserlen ar gyfer masnachfreinio bysiau.

**Ymgysylltu â Gweithredwyr Bws**

Grŵp rhanddeiliaid allweddol arall yr ydym yn gweithio gydag ef yw gweithredwyr bysiau. Mae ein strategaeth ymgysylltu ar gyfer gweithredwyr wedi canolbwyntio ar sesiwn ymgysylltu wedi’i strwythuro bob dau fis gyda'r gweithredwyr sydd wedi dangos awydd am gyfleoedd masnachfreinio. Mae hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu trwy gyrff y diwydiant a sianeli eraill wedi dod â grŵp amrywiol o weithredwyr o wahanol ranbarthau a meintiau ynghyd, gyda thua 25-30 o weithredwyr yn cymryd rhan ym mhob sesiwn hyd yn hyn. Mae cynnwys y sesiynau hyn wedi'i yrru gan adborth blaenorol a hyd yn hyn, rydym wedi canolbwyntio ar gyflwyno deddfwriaeth, y strategaeth ar gyfer perchnogaeth fflyd a depos a'n strategaeth fasnachol a chaffael ehangach ar gyfer darparu masnachfreinio yng Nghymru.

Yn ogystal ag ymgysylltu â gweithredwyr fel eu bod yn ymwybodol o'r broses masnachfreinio bysiau, rydym wedi ymrwymo i ddysgu o'u profiad ac yn awyddus i ddefnyddio'r sesiynau hyn i gasglu adborth er mwyn helpu i lywio’r ffordd yr ydym yn blaengynllunio. Er enghraifft, mae eu profiadau o gyflawni contractau trafnidiaeth blaenorol yng Nghymru, a thu hwnt, yn fewnwelediadau allweddol a fydd yn ein helpu i lunio masnachfreinio o safbwynt masnachol a chaffael.

Er bod ein hymgysylltiad â gweithredwyr bysiau hyd yn hyn wedi bod yn gynhyrchiol, rydym yn ymwybodol, wrth i'r dull cyflwyno fesul parth ddatblygu, y bydd angen teilwra ein ffordd o ymgysylltu â gweithredwyr bysiau ymhellach. Bydd angen i'r digwyddiadau ymgysylltu ystyried anghenion gwahanol y sefydliadau cenedlaethol mwy a'r farchnad Busnesau Bach neu Ganolig (SME) leol yng Nghymru, yn ogystal â darparu ar gyfer y rhai sydd, oherwydd eu daearyddiaeth, angen mwy o fanylion ac arweiniad yn gynharach. Unwaith eto, rydym yn cydnabod yr angen i fod yn ddeinamig ac yn hyblyg yn y ffyrdd rydym yn gweithio er mwyn sicrhau nad ydym yn creu dull gweithredu sydd yr un peth i bawb.

**Ymgysylltu â Gweithredwyr Trafnidiaeth Gymunedol**

Rydym yn gwerthfawrogi rôl bwysig Trafnidiaeth Gymunedol a'r angen i ymgysylltu'n agos â'r sector wrth i ni ddatblygu ein cynigion rhwydwaith. Rydym yn gweithio gyda'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol (CTA) ac awdurdodau lleol i gynnal sesiynau ymgysylltu â Gweithredwyr Trafnidiaeth Gymunedol yn Ne-orllewin Cymru er mwyn iddynt gael rhannu eu barn am ddylunio rhwydwaith, a sut y gellir ei wella wrth symud ymlaen. Byddwn yn ceisio efelychu hyn ledled Cymru wrth i ni symud ymlaen trwy'r broses gyflwyno.

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Mae'n allweddol nodi y bydd gwasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn gallu parhau i weithredu heb gontract masnachfraint ac na fydd disgwyl i weithredwyr trafnidiaeth gymunedol fodloni amodau gwasanaethau wedi'u masnachfreinio'n awtomatig. Fodd bynnag, bydd gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol hefyd yn gallu gwneud cais am gontractau masnachfraint lle bo'n briodol. Rydym yn ymgysylltu â'r sector i ddeall sut y gall cyfleoedd masnachfreinio fod yn hygyrch i Sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol sy'n dymuno gwneud cais am fasnachfreintiau. Er y gall gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol fynychu'r sesiwn ar fframwaith ymgysylltu gweithredwyr, rydym hefyd yn gweithio gyda'r Gymdeithas Cludiant Cymunedol i gynnal sesiynau ar wahân gyda Gweithredwyr Trafnidiaeth Gymunedol i sicrhau ein bod yn ystyried yr heriau unigryw sy'n wynebu'r sector.

**Ymgysylltu ag Undebau Llafur**

Drwy gydol ein gwaith ar fasnachfreinio bysiau hyd yn hyn, rydym wedi ymgysylltu'n weithredol ag Undebau Llafur drwy ddull cynhwysfawr sydd â'i wreiddiau mewn Partneriaeth Gymdeithasol. Rydym wedi sefydlu Fframwaith Partneriaeth Gymdeithasol, sy'n cynnwys cyfleoedd ymgysylltu rheolaidd ag Undebau Llafur. Nod y cydweithredu hwn yw sicrhau bod buddiannau a mewnwelediadau eu haelodau a'u cydweithwyr gweithredwyr bysiau yn ganolog i ddatblygu a gweithredu gwasanaethau bws ledled Cymru.

Mae TrC yn cynnal deialog barhaus ag Undebau Llafur a gweithredwyr bysiau i hyrwyddo arfer gorau, darparu gwasanaethau a cheisio cyfleoedd i wella'r amgylchedd gweithio, gan sicrhau bod hawliau a buddiannau gweithwyr yn cael eu cynnal. Mae hyn yn cynnwys ceisio cytuno ar Ddatganiad Niwtraliaeth a gynigiwyd gan Undebau Llafur lle mae gweithredwyr yn ymrwymo i sut y byddant yn mynd ati i weithio gydag Undebau Llafur. Byddai Gweithredwyr Bysiau sy'n cael eu Masnachfreinio yn llofnodi'r datganiad i ddangos eu bod yn cydnabod yr hawl i ryddid i ymgysylltu.

**Y Broses Fasnachfreinio**

Gobeithiaf fod y wybodaeth uchod yn amlinellu ein gwaith helaeth i sicrhau bod ein cynigion ar gyfer masnachfreinio bysiau yn adlewyrchu anghenion amrywiaeth o randdeiliaid yng Nghymru ac yn rhoi dealltwriaeth dda i chi o sut y byddwn yn ymgysylltu'n barhaus â'r diwydiant a'r cyhoedd. Nawr hoffwn roi rhagor o fanylion i chi am y broses masnachfreinio bysiau a sut rydym yn cynnig y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol.

Mae masnachfreinio yn dwyn ynghyd cryfderau gweithredwyr preifat, bwrdeistrefol a chymunedol wrth ddarparu gwasanaethau effeithlon o fewn rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus sydd wedi'i gydlynu a'i gynllunio. Mae masnachfreinio bysiau yn golygu y bydd penderfyniadau ynghylch gwasanaethau bws yng Nghymru, gan gynnwys llwybrau, amserlenni, prisiau tocynnau, oriau gweithredu a safonau ansawdd gwasanaethau, yn cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a Chyd-bwyllgorau Corfforedig. Gall gweithredwyr bysiau wneud cynnig am gontractau i redeg gwasanaethau i'r fanyleb hon.

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Rydym wrthi'n datblygu ein dull o gaffael y rhwydwaith masnachfraint, gan ddefnyddio ein fframwaith ymgysylltu i weithio'n agos gyda'r rhestr o randdeiliaid uchod. O fewn pob parth, caiff y rhwydwaith masnachfraint ei ffurfio o nifer o becynnau masnachfraint, a'r pecynnau hyn fydd elfennau penodol y rhwydwaith y bydd gweithredwyr yn gwneud cais amdanynt er mwyn eu cyflawni.

Defnyddiwyd tair egwyddor bwysig i ddiffinio sut y dylid datblygu'r pecynnau masnachfraint o fewn y parth:

- A yw pecynnau'n effeithlon yn weithredol?
- A yw'r pecynnau'n creu cystadleuaeth dderbyniol?
- A yw'r pecynnau'n cefnogi'r farchnad busnesau bach a chanolig bresennol?

Bydd amrywiaeth o newidynnau'n cael eu hystyried wrth nodi pecynnau masnachfraint, gan gynnwys y llwybrau yn y rhwydwaith arfaethedig, gofynion cerbydau er mwyn gweithredu'r llwybrau hyn, cydweithio rhwng bysiau, lleoliadau depos a phroffil y farchnad.

Ein bwriad yw cynnal cyfoeth y farchnad gweithredwyr bysiau bresennol yng Nghymru sy'n cynnwys nifer uchel o fusnesau bach a chanolig, gweithredwyr trafnidiaeth gymunedol, gweithredwyr bysiau trefol (yng Nghaerdydd a Chasnewydd) a gweithredwyr rhyngwladol mwy. Rydym yn dylunio pecynnau i fod yn ddeniadol i'r cymysgedd amrywiol hwn o weithredwyr ac i sicrhau, mewn rhwydwaith masnachfraint, bod pob math o weithredwr yn parhau i ddarparu gwasanaethau bws lleol. Yn ogystal â hyn, rydym yn ymwybodol o'r rôl bwysig sydd gan fusnesau bach a chanolig yn benodol wrth ddarparu teithio gan ddysgwyr, a gwasanaethau masnachol pwysig eraill fel teithiau ar goetsys. Felly, rydym yn edrych i gynnal y farchnad busnesau bach a chanolig i sicrhau nad yw masnachfraint yn effeithio'n andwyol ar y gwasanaethau pwysig eraill hyn.

Rydym wedi datblygu ein cynllun cychwynnol ar gyfer llunio pecynnau'r rhwydwaith yn y De-orllewin, ac rydym eisoes wedi gweithio gyda'r Awdurdodau Lleol yn y rhanbarth i lywio ein dull ymhellach yn seiliedig ar eu dealltwriaeth o'r llwybrau a'r gweithredwyr lleol. Rydym yn bwriadu profi ein masnachfreintiau arfaethedig gyda'r gweithredwyr bysiau trwy ein fframwaith ymgysylltu i sicrhau eu bod yn ddeniadol i weithredwyr ac i sicrhau ein bod yn creu digon o gystadleuaeth.

I hybu'r gystadleuaeth iach hon am becynnau masnachfraint ymhellach, disgwylir y bydd angen i TrC fod yn berchen ar sawl depo strategol ond bydd y rhan fwyaf o'r depos yn parhau i fod yn eiddo i weithredwyr. Ar hyn o bryd rydym yn y camau cynnar o ran nodi lleoliadau addas ar gyfer y depos hyn sydd, yn y De-orllewin, yn cynnwys depo newydd posibl sy'n gweithredu fflyd o fysiau trydan celloedd tanwydd hydrogen, sy'n cefnogi bwriad Llywodraeth Cymru i symud i gerbydau di-allyriadau a datblygu'r economi hydrogen.

Fel y soniwyd yn flaenorol, rydym yn ymgysylltu ag Awdurdodau Lleol a gweithredwyr bysiau ar nodweddion allweddol contractau masnachfraint a sut y gallai safonau perfformiad edrych. Fel rhan o hyn, rydym yn casglu adborth gan weithredwyr ar fesuriadau penodol a pha mor effeithiol y maent yn credu y bydd y rhain wrth annog yr ymddygiadau a'r canlyniadau cywir yn ystod y broses gaffael. Yn ogystal â hyn, rydym wedi bod yn gweithio gydag awdurdodau masnachfraint eraill, fel Transport for Greater Manchester, er mwyn deall y gwersi a ddysgwyd ganddynt ac adolygu arfer gorau.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Dros amser, bydd TrC yn cyflwyno cerbydau newydd i Fflyd Fysiau Cymru, fel yr ydym eisoes wedi'i wneud ar sawl un o lwybrau TrawsCymru. Bydd hyn yn cynnwys bysiau di-allyriadau, gyda'r mwyafrif wedi'u bweru gan fatri trydan ond rhai'n defnyddio hydrogen fel tanwydd. Ar ddechrau'r broses fasnachfreinio, mae'n debygol mai'r rhan fwyaf o'r bysiau fydd y rhai yn y fflyd bresennol, gyda nifer llai o gerbydau newydd yn cael eu cyflwyno ar y dechrau. Bydd y cerbydau newydd hyn yn cyflwyno brandio clir i greu cysondeb a hunaniaeth ar gyfer y fflyd fysiau ledled Cymru.

Rydym hefyd wedi cynnig i weithredwyr bysiau y dylid cyflwyno mecanwaith 'gwerth gweddilliol', sy'n caniatáu i TrC brynu cerbydau gan weithredwyr nad ydynt yn llwyddiannus wrth geisio ennill contractau masnachfraint. Mae hyn yn diogelu'r buddsoddiad y mae gweithredwyr eisoes wedi'i wneud yn eu fflyd ac yn sicrhau ein bod yn gallu defnyddio'r fflyd bresennol mewn amgylchedd masnachfraint.

**Ffocws ar gwsmeriaid**

Fel gyda phopeth rydyn ni'n ymdrechu i'w gyflawni yn TrC, mae anghenion a phrofiad cwsmeriaid wrth wraidd ein dull gweithredu o ran masnachfreinio bysiau. Er y bydd y gweithgaredd ymgysylltu a'r cyhoedd cyntaf yn Haf 2025 yn canolbwyntio ar y De-orllewin, ein bwriad yw creu a chynnal dolen adborth agored gyda'r cyhoedd a'n cwsmeriaid wrth i ni gyflwyno masnachfreinio ledled Cymru. Rydym hefyd yn cynnal amrywiaeth o arolygon i ddeall teimladau a gofynion cwsmeriaid, gan gynnwys yr arolwg 'Your Bus Survey' gan Transport Focus, yn ogystal â defnyddio ein platfformau ymgysylltu presennol ein hunain. Ym mis Mawrth 2025, lansiwyd ein panel Rhwydwaith Bysiau digidol ein hunain a anogodd gyfranogwyr i rannu eu barn ar sut yr hoffent 'ddweud eu dweud' ar elfennau o fasnachfreinio bysiau. Nododd yr ymarfer hwn fod dros hanner y cyfranogwyr wedi nodi bod amlder bysiau yn eu cymell i beidio defnyddio gwasanaethau'n amlach ac mai teithiau hamdden oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros deithio.

Mae masnachfreinio yn dod â'r cyfle i ddarparu cynnig mwy dibynadwy i gwsmeriaid, a bydd ein dull gweithredu yn golygu ein bod yn cyflwyno cysondeb ar draws meysydd gan gynnwys argaeledd gwybodaeth i gwsmeriaid, sy'n cynnwys amserlenni, gwybodaeth ynghylch cynllunio teithiau a gwybodaeth amser real. Bydd gennym hefyd ddull cyson o ran prisiau a thocynnau ledled Cymru, gan ddisgwyl y byddwn yn symud i ddull prisiau sy'n seiliedig ar y pellter a deithiwyd. Bydd teithwyr yn gallu defnyddio tocynnau Talu wrth Fynd neu brynu tocynnau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys ar y bws neu drwy ap a fydd yn cynnwys pob gwasanaeth bws ar y rhwydwaith. Yn ogystal â hyn, bydd ein dull o ran prisiau a thocynnau yn parhau i gefnogi teithio rhatach, gan roi ystyriaeth i ddisgowntiau arbennig a darparu ateb symlach a mwy cyfartal i gwsmeriaid.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

**Paratoi ar gyfer masnachfreinio**

Er nad yw'r cyflwyniad fesul parth cychwynnol yn Ne-orllewin Cymru wedi'i gynllunio tan 2027, ein nod yw cyflawni rhai o fanteision diwygio'r bysiau cyn i'r ddeddfwriaeth dderbyn y Cydsyniad Brenhinol a gynlluniwyd ar gyfer Gwanwyn 2026. Mae cyfleoedd ar gael i weithredu rhai o'n huchelgeisiau ar gyfer masnachfreinio yn gynnar, o ystyried natur y ffordd y mae gwasanaethau bysiau'n cael eu darparu ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys ein gwaith gydag Awdurdodau Lleol yng Nghanolbarth Cymru a'r ffaith ein bod wedi caffael gwasanaethau TrawsCymru. Er enghraifft, rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Powys a Chyngor Ceredigion ar y fenter 'pontio i fasnachfreinio'. Mae'r rhan fwyaf o rwydwaith Canolbarth Cymru eisoes wedi'i gontractio, sydd wedi rhoi cyfle i ni brofi ein cynlluniau a helpu i hybu darpariaeth bysiau yn y rhanbarth.

Rydym hefyd yn awyddus i ddysgu am yr effaith y bydd diwygio bysiau yn ei chael ar wasanaethau, felly rydym yn cymhwyso rhai o'r amcanion masnachfraint o ran prisiau, tocynnau, amserlenni a chontractau i'n gwasanaethau TrawsCymru. Yn ogystal â hyn, rydym yn ffurfio partneriaethau ag Awdurdodau Lleol, fel Cyngor Gwynedd, ar gyfer ail-dendro a darparu cerbydau newydd i'w defnyddio yng nghontractau'r Awdurdodau Lleol.

Lle rydym yn contractio llwybrau TrawsCymru, rydym hefyd wedi gweithredu nifer o nodweddion sy'n ein galluogi i brofi a deall y potensial ar gyfer masnachfreinio. Mae'r buddsoddiad yn y fflyd newydd, amserlenni gwell, strwythurau prisiau symlach yn seiliedig ar bellter a gwell gysylltedd â gwasanaethau eraill wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y teithwyr. Rydym yn parhau i gynnal digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd ar lwybrau penodol i ddeall anghenion teithwyr ac i fynd i'r afael â phroblemau. Rydym hefyd wedi integreiddio ein tocynnau Traws â'r rhwydwaith rheilffyrdd yn llawn, a gall cwsmeriaid bellach brynu tocynnau trwy systemau rheilffyrdd Cenedlaethol a, lle bo'n berthnasol, mae bysiau'n dangos amseroedd gadael byw trenau er mwyn galluogi teithwyr i gysylltu o wasanaethau bws i wasanaethau trên.

Mae enghreifftiau penodol o lwyddiant gwasanaethau TrawsCymru yr hoffwn dynnu sylw atynt yn cynnwys y gwasanaeth blaenllaw T1 rhwng Caerfyrddin ac Aberystwyth a lansiwyd ym mis Mawrth 2023. Cyflwynwyd wyth cerbyd trydan penodol iawn o ddepo gwefru pwrpasol yng Nghaerfyrddin yn llwyddiannus i'r gwasanaeth hwn. Caniataodd amserlen newydd, a oedd wedi integreiddio â threnau yng Nghaerfyrddin ac Aberystwyth, i ni lansio tocyn trên/bws integredig, sy'n cael ei werthu ar gyfer dros 10,000 o deithiau bob flwyddyn. Yn y flwyddyn lawn gyntaf o'i weithredu, gwelodd y gwasanaeth T1 dwf o 60% yn nifer y teithwyr.

Yn 2023, cafodd pum llwybr arall eu contractio'n uniongyrchol gan Trafnidiaeth Cymru ac yn y flwyddyn ariannol 2024/25, roedd twf yn nifer y teithwyr dros y chwe llwybr yn 11.8% o'i gymharu â 23/24 (cynnydd o 153,000 o deithiau teithwyr), a gwelwyd twf refeniw o 13.1%. Cyfrannodd ein mentrau marchnata ar y cyd yn ogystal â'n gweithgareddau hyrwyddo at dwf mewn nawdd ar draws holl wasanaethau TrawsCymru yn y blynyddoedd ariannol 23/24 a 24/25, gyda'r cynnydd o ran nawdd yn amrywio o 6.4% i 43.5%. Wrth i gontractau presennol ddod i ben a ninnau'n bwrw ymlaen â'n paratoadau ar gyfer Masnachfreinio Bysiau, byddwn yn croesawu mwy o wasanaethau TrawsCymru i'n portffolio a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni hyn.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

3 Llys Cadwyn
Pontypridd,
CF37 4TH,
029 2167 3434
James.price@trc.cymru
trc.cymru

3 Llys Cadwyn
Pontypridd
CF37 4TH
029 2167 3434
james.price@tfw.wales
tfw.wales

Gobeithiaf y bydd y llythyr hwn yn rhoi cipolwg cychwynnol i'r pwyllgor ar sut mae Trafnidiaeth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill i baratoi ar gyfer Masnachfreinio Bysiau. Bydd ein Cyfarwyddwr Gweithredol ar gyfer Trafnidiaeth Ranbarthol ac Integreiddio, Lee Robinson, yn ymuno â phanel y Bil Gwasanaethau Bysiau i roi tystiolaeth lafar ddydd Iau 19 Mehefin ac mae'n edrych ymlaen at drafod y cynlluniau'n fanylach.

Cofion cynnes,

James Price
Prif Weithredwr / Chief Executive